**Rhif: WG29831**

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 (WelTAG 2017)

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymeryd: Ymatebion erbyn 2 Mawrth 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cafodd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ei gyhoeddi yn 2008. Caiff ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi canllawiau i'w defnyddio wrth ddatblygu, arfarnu, a gwerthuso prosiectau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br><br>Cafodd y canllaw ei ddiwygio i adlewyrchu'r arfer gorau yn y maes hwn ac i'w ddefnyddio gyda'r Model Busnes Pum Achos, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer achosion busnes sy'n cyd-fynd â cheisiadau am gyllid gan y sector cyhoeddus. Mae'r cyfle wedi ei gymeryd i leihau hyd y canllawiau ac i gynnwys egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Sut i ymateb** | Cyflwynwch eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb a'i dychwelyd atom erbyn 2 Mawrth 2017, gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:<br><br>Ebost: Weltag@wales.gsi.gov.uk<br><br>Drwy'r Post: WelTAG<br>Polisïau, Cynllunio a Phartneriaethau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae dogfennau print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael drwy wneud cais.**<br><br>Nodwch unrhyw gyfeiriadau at y rhyngrwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ymgyngoreion e.e. cyfeiriad yr ymgynghoriad ar y we, atodiad manwl i'r ymgynghoriad |
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>Polisïau, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>ebost: Weltag@wales.gsi.gov.uk |

Sut y bydd eich barn a'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi inni'n cael ei defnyddio

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn dileu'r wybodaeth honno.

Efallai y bydd enwau a chyfeiriadau yr ydym yn eu dileu'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a ddelir gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nas cyhoeddwyd. Fodd bynnag, mae'r ddeddf hefyd yn ein caniatáu i beidio â datgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth nad ydym wedi ei datgelu, bydd raid i ni benderfynu ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, ar brydiau efallai y bydd yna resymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er iddo ofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn er mwyn gofyn am ei farn cyn i ni benderfynu'n derfynol ynglŷn â datgelu'r wybodaeth.

## Y Rhagair

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi gwybodaeth inni i'n galluogi i ddiweddaru yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), ac i helpu inni wneud penderfyniadau gwell i sicrhau canlyniadau gwell i Gymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cafodd ein hamcanion llesiant eu cyhoeddi yn ddiweddar, fydd yn eu tro yn llunio rhan allweddol o achos busnes strategol ym mhob un o'r ymyraethau trafnidiaeth yn y dyfodol, ac yn gwella llesiant cymdeithasol a diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn byw mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol dybryd, sy'n golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach i wella'r ffordd yr ydym yn datblygu a blaenoriaethu buddsoddiadau trafnidiaeth, a'r angen i sicrhau gwerth am arian ar gyfer buddsoddi yn y sector cyhoeddus. Mae WelTAG wedi ei gyfuno â Model Pum Achos Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer Achosion Busnes y Sector Cyhoeddus i sicrhau fod penderfyniadau ar fuddsoddiadau busnes yn ystyried yr achos busnes llawn ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth arfaethedig.

Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi eu cynnwys yn WelTAG 2017. Caiff defnyddwyr eu harwain i ystyried effeithiau hirdymor a thymor byr yr opsiynau, yn ogystal ag opsiynau i rwystro problemau rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y lle cyntaf. Mae integreiddio, cydweithio a chymeryd rhan yn hanfodol drwy gydol arfarniad WelTAG i wneud yn siŵr nad yw ymyraethau trafnidiaeth yn cael eu datblygu ar eu pennau eu hunain ac i ystyried yr effeithiau ehangach.

Rwy'n croesawu eich barn yn fawr iawn ar y WelTAG newydd a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol.

**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**

**Beth yw'r prif broblemau?**

Cafodd yr arweiniad gwreiddiol ei gyhoeddi yn 2008. Roedd yn ddogfen hir ac yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd technegol sydd bellach yn rhy hen.

Egwyddor cyffredinol WelTAG 2008 yw deall y broblem a mynd drwy restr hir o opsiynau (Cam 1), ac yna ddatblygu rhestr fer ac arfarnu yr opsiynau ymhellach ac yna'r ateb a ffefrir (Cam 2). Mae'r dull hwn o weithio yn parhau i fod yn ddilys. Fodd bynnag, mae profiad o ddefnyddio WelTAG 2008 yn dangos fod Cam 2 yn cynnwys rhan fawr o'r broses arfarnu a gallai elwa o'i rhannu yn gamau llai.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Model Busnes Pum Achos ar gyfer achosion busnes yn y sector cyhoeddus. Mae'r diwygiadau arfaethedig i WelTAG wedi eu cynllunio i gynnig dull gydlynnol a chyson o arfarnu cynlluniau trafnidiaeth gan ddefnyddio WelTAG a pharatoi achosion busnes drwy ddefnyddio strwythur y Model Busnes Pum Achos.

**Ble ydym nawr?**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi diweddaru arweiniad WelTAG. Gan mai WelTAG fydd y dull o arfarnu fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru, rydym bellach yn gofyn am sylwadau ac adborth gan bawb sydd â diddordeb cyn i'r arweiniad newydd gael ei gwblhau.

**Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer newid?**

Mae'r prif newidiadau yr ydym yn eu cynnig wedi eu cynllunio i:

- Adlewyrchu arfer gorau cyfredol o ran arfarnu trafnidiaeth, tra'n lleihau hyd y ddogfen a'r angen i'w diweddaru yn y dyfodol;
- Cyfuno WelTAG a'r Model Busnes Pum Achos fel bod penderfyniadau am fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn ystyried yr achos busnes llawn ar gyfer yr ymyrraeth; a
- Cynnwys egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015).

## Arweinad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 2017

## Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

ebost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n teimlo bod WelTAG 2017 yn broses well ar gyfer datblygu, arfarnu, a gwerthuso prosiectau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth?

**Ydwyf/Nac ydwyf:**

**Os nad ydych, eglurwch y rheswm am eich ateb:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** Mae WelTAG 2017 wedi ei ysgrifennu i gynnwys nodau, amcanion a ffyrdd o weithio sydd wedi'u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A oes meysydd penodol ble y mae angen gwella neu gryfhau y ddogfen?

**Oes/Nagoes:**

**Os oes, eglurwch y prif reswm am eich ateb:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** Ein bwriad yw cynnig Nodiadau Cynghori i gyd-fynd â WelTAG 2017. Pa nodiadau cynghori fyddech chi'n teimlo fyddai o gymorth?

**Rhowch eich ateb yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw feysydd ble y byddech yn teimlo bod hyfforddiant a chymorth ychwanegol o help?

**Os oes, rhowch eich awgrymiadau isod:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr arweiniad hwn?

**A wnewch chi ymateb yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

Mae'n bosib y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddi-enw, ticiwch yma: ☐